**Rhaglen Hwb – Asesiad Effaith ar Hawliau Plant**

## Amcanion polisi

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu dull cenedlaethol, teg, cynhwysol, cyson a dwyieithog i wasanaethau digidol fel rhan o'i Rhaglen Lywodraethu, "Cenhadaeth ein Cenedl," Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), a Chwricwlwm i Gymru.

Yn sail i'r ymrwymiadau hyn, mae rhaglen Hwb yn hanfodol o ran cefnogi diwygio addysg hirdymor a gwella canlyniadau. Mae'n darparu'r sylfeini digidol ar gyfer ysgolion, llwyfan ar gyfer dysgu ac addysgu, ac yn cefnogi gweithrediadau o ddydd i ddydd. Mae'r rhaglen Hwb yn sicrhau mynediad at wasanaethau diogel, sicr a theg sy'n ysbrydoli athrawon a dysgwyr i ymgorffori arferion digidol a datblygu'r cymwyseddau sy'n angenrheidiol ar gyfer Cwricwlwm i Gymru.

Mae'r rhaglen yn cael ei ysgogi gan amcanion strategol sy'n blaenoriaethu ymarferwyr a dysgwyr. Mae'r amcanion hyn yn cynnwys darparu arweinyddiaeth, datblygu partneriaethau strategol ar gyfer caffael effeithiol, darparu seilwaith digidol, cefnogi trawsnewid digidol trwy wasanaethau dwyieithog, gwella cadernid digidol, a meithrin galluoedd digidol.

## Mentrau Allweddol

Mae'r rhaglen Hwb yn cynnwys nifer o fentrau hanfodol sy'n cefnogi'r Rhaglen Lywodraethu a blaenoriaethau Gweinidogol:

- **Platfform Hwb:** Porth digidol ar gyfer addysg yng Nghymru.
- **Gwasanaeth Darparu a Dilysu:** Yn sicrhau mynediad diogel i dros 550,000 o ddefnyddwyr ledled Cymru.
- **Cytundeb Trwyddedu Cenedlaethol ar gyfer Microsoft Office:** Yn darparu offer hanfodol ar gyfer addysgu a dysgu.
- **Rhaglen EdTech:** Yn gwella seilwaith digidol a gwasanaethau cymorth.
- **Cadernid Digidol mewn Addysg** Yn canolbwyntio ar ddiogelu ac arferion digidol diogel.
- **Aeddfedrwydd Digidol:** Yn sicrhau bod gan ysgolion yr adnoddau i fodloni safonau digidol modern.
- **Gwneud y defnydd mwyaf o offer Hwb:** Yn darparu datblygiad sgiliau digidol parhaus i addysgwyr.

## Casglu tystiolaeth ac ymgysylltu â phlant a phobl ifanc

Fel rhan o Raglen Hwb, rydym wedi ymrwymo i ymgorffori cadernid digidol ledled ysgolion yng Nghymru. Rydym wedi ymrwymo i ystod o gamau gweithredu i gefnogi'r amcan hwn.

Mae barn plant a phobl ifanc yn rhan annatod o'r camau gweithredu sy'n cael eu datblygu gennym i helpu i'w cadw'n ddiogel ar-lein. Rydym wedi gweithio gyda phartneriaid i gasglu barn dysgwyr sy'n ein helpu i ddeall prif bryderon a

blaenoriaethau diogelwch ar-lein plant ac rydym wedi defnyddio'r ymatebion hyn i lunio ein camau gweithredu.

Rydym yn parhau i gasglu a gwrando ar farn plant trwy grŵp ieuenctid diogelwch ar-lein.

O ran hawliau data a phreifatrwydd plant, mae gan Raglen Hwb Asesiad Integredig Diogelu Data ar waith.

**Dadansoddi'r dystiolaeth ac asesu'r effaith**

Mae rhaglen Hwb yn sail i'r gwaith o gyflwyno Cwricwlwm i Gymru mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru.  Mae Asesiad Effaith Integredig ac Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ar wahân wedi'u cynhyrchu ar gyfer Cwricwlwm i Gymru.

Mae rhaglen Hwb yn darparu mecanwaith i gefnogi awdurdodau lleol ac ysgolion i ddarparu profiad technoleg addysg cyson a chynaliadwy ar draws ysgolion a gynhelir yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydweithio ag awdurdodau lleol ac ysgolion i sicrhau bod rhaglen Hwb yn diwallu anghenion ysgolion a dysgwyr.

Mae'r rhaglen yn darparu mynediad cyfartal a chost-effeithiol i wasanaethau ac adnoddau digidol dethol i bob dysgwr mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru. Bydd hyn yn cynnwys pob grŵp o ddysgwyr sy'n ymwneud ag addysg yng Nghymru.

**Dadansoddi'r dystiolaeth ac asesu'r effaith**

Mae rhaglen Hwb yn sail i nifer o feysydd polisi allweddol Llywodraeth Cymru sy'n effeithio ar hawliau'r plentyn, gan gynnwys Cwricwlwm i Gymru. Mae'r rhaglen hefyd yn cefnogi ysgolion ac awdurdodau lleol i gadw at a chynnal hawliau plant a chod plant y Comisiynydd Gwybodaeth.
Mae erthyglau canlynol CCUHP yn cael eu hystyried yn berthnasol i raglen Hwb:

| **Erthyglau CCUHP neu Brotocol Dewisol** | **Gwelliannau (X)** | **Heriau (X)** | **Esboniad** |
|---|---|---|---|
| Erthygl 16 – Yr hawl i breifatrwydd | x | | Mae gwella sgiliau digidol a hyder wrth ddefnyddio gwasanaethau digidol yn cefnogi hawliau plant i breifatrwydd. Mae sicrhau bod plant a phobl ifanc yn deall sut mae'r wybodaeth amdanynt eu hunain y maent yn ei rhoi ar-lein neu ei chreu drwy ddefnyddio |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | gwasanaethau digidol yn allweddol i'w helpu i wneud dewisiadau gwybodus, moesegol am yr wybodaeth y maent yn ei rhoi ar-lein, a sut i ddelio â phroblemau os ydynt yn digwydd. |
| Erthygl 17 – Yr hawl i gael mynediad at wybodaeth drwy'r cyfryngau | x | | Mae'r cyfryngau yn symud yn gynyddol oddi wrth sianeli traddodiadol i'r gofod digidol; mae sicrhau bod gan bob plentyn gysylltiadau dibynadwy yn yr ysgol â'r rhyngrwyd, y sgiliau a'r hyder i fynd ar-lein yn ddiogel, a dealltwriaeth o fanteision a chyfyngiadau cyfryngau ar-lein yn allweddol er mwyn iddynt allu cael mynediad at wybodaeth o’r cyfryngau. |
| Erthygl 23: Plant ag anableddau yn cael mynediad at wasanaethau ac yn ymgysylltu â'u cymunedau ehangach | x | | Bydd sicrhau bod pob gwasanaeth digidol newydd yn bodloni gwasanaethau hygyrchedd caeth yn sicrhau y bydd plant anabl yn gallu cael mynediad at wasanaethau digidol yn annibynnol yn yr ysgol lle bynnag y bo modd. Bydd cysylltiadau dibynadwy, a sicrhau bod gan bob plentyn y sgiliau a’r hyder priodol i fynd ar-lein hefyd yn cefnogi plant anabl i ymgysylltu â'u cymunedau, gan gynnwys cymunedau ar-lein neu ddigidol. |
| Erthygl 28 – Yr hawl i gael addysg | x | | Mae'r pandemig wedi dangos pa mor bwysig yw sgiliau digidol yn gyffredinol i addysg plant. Mae sicrhau bod gan blant y sgiliau cywir i gael mynediad at adnoddau addysgol digidol, bod ganddynt gysylltiadau dibynadwy i'w defnyddio, a'r hyder i wneud |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | hynny i gyd yn cefnogi eu hawl i addysg |
| Erthygl 31 – Yr hawl i hamdden, chwarae a diwylliant | x | | Mae’r maes digidol yn rhoi llawer o gyfleoedd ar gyfer hamdden, chwarae a diwylliant; o gemau ar-lein i deithiau rhithwir o safleoedd a chasgliadau diwylliannol. Mae sicrhau bod gan blant y gallu, y sgiliau a'r hyder i fynd ar-lein yn ddiogel yn hanfodol er mwyn amddiffyn eu hawliau i gael mynediad at hamdden, chwarae a diwylliant yn yr oes ddigidol. |
| Erthygl 34 – Yr hawl i gael eu diogelu rhag cam-drin a chamfanteisio rhywiol, gan gynnwys puteindra a chael eu defnyddio mewn pornograffi.<br><br>Erthygl 36 – Yr hawl i gael eu diogelu rhag unrhyw weithgareddau eraill a allai niweidio llesiant a datblygiad y plentyn. | X | | Bydd datblygu sgiliau digidol da, hyder ac ymwybyddiaeth o ddiogelwch ar-lein yn helpu i ddiogelu plant rhag pob math o ecsbloetiaeth. Mae darparu gwasanaethau digidol cadarn y gall plant eu defnyddio i ofyn am gymorth a chyngor, os ydynt yn teimlo'n anghyfforddus neu dan fygythiad, hefyd yn allweddol. |

**Erthyglau ychwanegol a bodlonwyd trwy Raglen Cadernid Digidol Hwb**

Mae hawliau’r plentyn yn ganolog i’r rhaglen Cadernid Digidol mewn addysg, sy’n rhan allweddol o Raglen Hwb, fel y nodir yn y Cynllun Gweithredu Cadernid Digidol.

Bydd y gweithgareddau yn y cynllun gweithredu yn cyfrannu at gael effaith gadarnhaol a chyfraniad at wneud erthyglau CCUHP yn realiti i blant yng Nghymru ac mae eu budd gorau yn ganolog i'r holl gamau gweithredu (erthygl 3).

Mae'n cydnabod bod amgylcheddau ar-lein yn galluogi plant a phobl ifanc i brofi ystod eang o'u hawliau gan gynnwys yr hawl i fod yn ddiogel.

Un o amcanion allweddol y cynllun gweithredu hwn yw cefnogi plant a phobl ifanc i ddod yn ddinasyddion digidol cyfrifol, sydd â chysylltiadau penodol â nifer o erthyglau CCUHP. Mae hyn yn cynnwys cefnogi plant a phobl ifanc i gyflawni eu potensial, yn bennaf mewn cyd-destun addysgol (erthyglau 17 a 29).
Mae'r adnoddau addysgol sydd ar gael ar ardal Cadw'n Ddiogel ar-lein Hwb wedi'u creu fel bod plant a phobl ifanc yn cael dealltwriaeth nid yn unig o'u hawliau eu hunain (erthygl 42), ond hefyd o sut y gall ymddygiadau penodol ar-lein dresmasu ar hawliau pobl eraill, e.e. drwy amlinellu'r gwahaniaeth rhwng rhyddid mynegiant (erthygl 13) a chasineb ar-lein.

Un o nodau allweddol ein gweithgaredd cadernid digidol mewn addysg yw codi ymwybyddiaeth o faterion y gall plant a phobl ifanc eu hwynebu ar-lein, megis bwlio neu wahaniaethu (erthygl 2) neu gamfanteisio'n rhywiol (erthygl 34), a darparu gwybodaeth a chyngor i ymarferwyr, plant a phobl ifanc a'u teuluoedd. Mae hyn yn cynnwys cyfeirio at wasanaethau cymorth neu adrodd sydd ar gael.

Er bod risgiau yn cael eu hamlygu, nid osgoi technoleg yw'r neges, ond ei defnyddio'n gyfrifol a defnyddio meddwl beirniadol o ran materion fel dibynadwyedd gwybodaeth a phreifatrwydd (erthygl 16). Mae'r rhyngrwyd yn cael ei gydnabod fel offeryn pwysig ar gyfer cael mynediad at wybodaeth (erthygl 17) ac i gefnogi datblygiad personol a chymdeithasol plant a phobl ifanc (erthygl 31).

Yn hollbwysig, mae cydnabyddiaeth bod angen arweiniad ar blant, ond hefyd mwy o annibyniaeth wrth iddynt ddatblygu (erthygl 5), a nod allweddol yw cefnogi rhieni a gofalwyr yn ogystal ag ymarferwyr i feithrin y sgiliau sydd eu hangen iddynt ddefnyddio'r rhyngrwyd yn ddiogel.

Mae Asesiad Effaith Cydraddoldeb ffurfiol wedi'i gwblhau ar gyfer Rhaglen HWB.

**Cyngor a phenderfyniad gweinidogol**

Wrth lunio cyngor Gweinidogol mewn perthynas â Rhaglen Hwb, mae swyddogion wedi rhoi sylw dyledus i hawliau plant fel y nodir yn CCUHP.

Mae Asesiad Effaith Integredig wedi'i ddatblygu ar gyfer Rhaglen Hwb gyda chyhoeddiad adran 1 ac 8 a bydd yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn cael ei gyhoeddi.

**Cyfathrebu â Phlant a Phobl Ifanc**

Er nad ydym wedi gofyn am farn plant a phobl ifanc ynghylch y Rhaglen Hwb gyfan, o ran ein gwaith ar ddiogelwch ar-lein byddwn yn rhoi gwybod i'n grŵp ieuenctid diogelwch ar-lein fod Asesiad Effaith Integredig ar gyfer Rhaglen Hwb wedi'i gyhoeddi.

## Monitro ac Adolygu

Mae'r Asesiad Effaith Integredig a'r Asesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant ar gyfer Rhaglen Hwb yn ddogfen fyw a fydd yn cael ei hadolygu a'i diweddaru wrth i'r gwaith fynd rhagddo ar y gwahanol ffrydiau gwaith o fewn Rhaglen Hwb.